# Carol y Plant Lleiaf: Ble Ganed Iesu Mwyn?

(*ar yr alaw ‘Pwy wnaeth y Sêr uwchben?’*)

Ble ganed Iesu mwyn,
Yr Iesu mwyn, yr Iesu mwyn?
Ble ganed Iesu mwyn?
Ym Methlehem.

Ble roedd y llety llwm,
Y llety llwm, y llety llwm?
Ble roedd y llety llwm?
Ym Methlehem.

Ble roedd y preseb gwair,
Y preseb gwair, y preseb gwair?
Ble roedd y preseb gwair?
Ym Methlehem.

Ble t’wynnai’r seren fry,
Y seren fry, y seren fry?
Ble t’wynnai’r seren fry?
Ym Methlehem.

Ble bu’r bugeiliaid syn,
Bugeiliaid syn, bugeiliaid syn?
Ble bu’r bugeiliaid syn?
Ym Methlehem.

Ble roedd y tri gŵr doeth,
Y tri gŵr doeth, y tri gŵr doeth?
Ble roedd y tri gŵr doeth?
Ym Methlehem.

Ble canai’r engyl gôr,
Yr engyl gôr, yr engyl gôr?
Ble canai’r engyl gôr?
Ym Methlehem.

*Maurice Loader*